Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Mercher 28 Tachwedd 2007

Teitl: **Lansiad yn y Senedd i Sefydliad Gwyddorau'r Ymennydd**

Mae sefydliad ymchwil pwysig yng Nghymru ar gyfer 'gwyddorau'r ymennydd' yn cael ei lansio yn Adeilad y Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Mercher, 28 Tachwedd.

Mae Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru (WICN), sy'n cynnwys Prifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe, yn tynnu ynghyd rhagoriaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol.

Trwy gyfuno adnoddau ac arbenigedd, a rhannu costau technoleg ddrud, mae WICN yn caniatáu i ymchwil ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol yng Nghymru gystadlu â'r sefydliadau gorau yn y byd am gyllid ymchwil.

Bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd posibl i fanteisio'n economaidd ac yn fasnachol ar ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes, a bydd yn mynd ati i weithio gyda diwydiant a'r sector gofal iechyd i'r perwyl hwn.

Mae WICN yn cael cymorth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru gwerth cyfanswm o £5.17 miliwn trwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC.

Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, penodwyd mwy na dwsin o ymchwilwyr o'r radd flaenaf ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Yn y cyfamser, mae academyddion ac ymchwilwyr yn y tair Canolfan wedi dechrau cydweithredu ar ddwsinau o brosiectau ymchwil.

Meddai'r Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor: "Mae WICN yn sefydliad y gall Cymru fod yn wirioneddol falch ohono. Mae gan y Sefydliad rai o'r ymchwilwyr

amlycaf y byd ym maes niwrowyddoniaeth. Bydd canlyniadau ymchwil i niwrowyddoniaeth yn bwydo i mewn i wasanaethau iechyd yng Nghymru, yn cael eu rhannu'n rhyngwladol, a gallant ddod â buddion economaidd ac o ran cyflogaeth."

Meddai'r Athro Adrian Burgess, Pennaeth Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe: "Mae'r Sefydliad newydd yn cynnig fframwaith y gellir ei ddefnyddio i sicrhau cydweithrediad ymchwil cynaliadwy ym maes Niwrowyddoniaeth Wybyddol yng Nghymru, a thrwy ddatblygu ysgol traws-brifysgol i raddedigion bydd modd i ni gynnig addysg arloesol i fyfyrwyr y dyfodol yma yng Nghymru a fydd yn gallu cystadlu â'r gorau sydd ar gael unrhyw le yn y byd."

Meddai'r Athro Dylan Jones, Pennaeth Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd: "Bu'n foddhaus gweld parodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi – trwy fenter gydweithredol WICN – adrannau sydd eisoes yn gryf er mwyn iddynt allu cystadlu'n effeithiol yn eu hymchwil â'r gorau yn y byd. Ar yr un pryd, caiff gwaith WICN ei ymestyn i'r sefyllfa leol, gan roi cyfleoedd i'r cyhoedd ddysgu am ddatblygiadau allweddol yn ein dealltwriaeth o'r ymennydd."

Meddai Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Rwy'n falch iawn ein bod yn cefnogi'r cydweithrediad ymchwil rhagorol hwn. Bydd y Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol yn rhoi Cymru wrth galon y gymuned ymchwil yn y maes gwaith arwyddocaol iawn hwn. Bydd y Sefydliad yn cynnal ymchwil o'r radd flaenaf trwy gydweithrediad, yn unol â'r ymagwedd a anogwyd gennym yn ein strategaeth *Ymgeisio'n Uwch*."

Diwedd

Cyswllt i'r cyfryngau
Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu CCAUC
Ffôn 029 2068 2225

Nodiadau i Olygyddion

Cynhelir y lansiad am 5.30 pm yn Oriel Adeilad Senedd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd ar ddydd Mercher, 28 Tachwedd 2007.

Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru

Yn 2006, dyfarnwyd cefnogaeth gwerth £5.17 miliwn i Brifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe i sefydlu Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru aml-ganolfan. Mae'r Sefydliad yn tynnu ynghyd rhagoriaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol. Trwy gyfuno adnoddau ac arbenigedd, a rhannu costau technoleg ddrud, mae'r Sefydliad yn caniatáu i ymchwil ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol yng Nghymru gystadlu â'r sefydliadau gorau yn y byd. Bydd yn cynnig cyfleoedd posibl i fanteisio'n economaidd ac yn fasnachol ar ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn, a bydd y Sefydliad yn mynd ati i weithio gyda diwydiant a'r sector gofal iechyd i'r perwyl hwn.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae niwrowyddoniaeth wybyddol wedi ymddangos yn un o feysydd mwyaf arwyddocaol gwyddoniaeth gyfoes. Mae'r ddisgyblaeth wyddonol hon sy'n symud yn gyflym yn dechrau trawsnewid ein dealltwriaeth o swyddogaeth arferol yr ymennydd a swyddogaeth ymennydd sydd wedi'i ddifrodi, yn ogystal â llywio triniaeth ar gyfer namau ar yr ymennydd fel anaf i'r ymennydd, strôc, dementia a sgitsoffrenia.

Defnyddiwyd cyllid oddi wrth y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu i sefydlu strwythur rheoli unedig a strategaeth ymchwil ar gyfer y Sefydliad, yn ogystal ag i dynnu ynghyd grwpiau ymchwil sy'n bodoli eisoes. Mae'r cyllid hefyd wedi adeiladu ar yr arbenigedd cyfunol hwn trwy benodi pum Cadair newydd, yn ogystal â staff ymchwil ychwanegol a chymorth technegol cysylltiol. Bydd datblygiad parhaus y Sefydliad yn cynnwys sefydlu Ysgol ar y cyd i Raddedigion yng Nghymru ym maes Niwrowyddoniaeth Wybyddol, er mwyn datblygu a meithrin ymchwilwyr dawnus newydd. Trwy'r datblygiadau hyn, nod Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru yw cyflwyno lefel gynyddol o incwm ymchwil yn y tri sefydliad.

Y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu

Lansiwyd y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu ym mis Gorffennaf 2002 i gefnogi ailgynllunio'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru er mwyn cyflawni enillion sylweddol o

ran perfformiad a gwell cystadleugarwch. Cefnogwyd sawl partneriaeth yn ystod y cyfnod cyllido cyntaf hwn, gan gynnwys cyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

Ym mis Mehefin 2004, ailadroddodd Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddilyn proses ailgyflunio a chydweithredu fel ffordd o sicrhau sector addysg uwch cadarn, deinamig a chystadleuol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2004, lansiodd CCAUC ail gyfnod y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu gyda'r nod o annog cynigion am gyfuniadau, clystyrau a rhwydweithiau rhagoriaeth ac iddynt sylfeini da a rhesymoli darpariaeth rhwng sefydliadau.

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid a gyflwynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

CCAUC hefyd sy'n gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch anghenion cyllid, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.